

adnoddau amser creu
2017
creation time resources



Troedio'n Ysgafn
1af Mis Medi - 4ydd Mis Hydref
1st September - 4th October
Treading Lightly

Dechreuodd Amser Creu yn yr Eglwys Uniongred yn 1989 ac mae wedi cael ei gefnogi gan nifer cynyddol o eglwysi ar draws Ewrop ers hynny. Mae Rhwydwaith Amgylcheddol Cristnogol Ewrop wedi annog eglwysi i fabwysiadu Amser Creu, yn ymestyn o 1 Medi hyd wledd Sant Ffransis ar 4 Hydref. Cafodd hyn ei gymeradwyo yng Nghynulliad Ecwmenaidd Ewrop yn Sibiu, Romania yn 2007, pryd y cytunwyd i

Amser Creu "gael ei ymroi i weddi ar gyfer diogelu Creu a hybu ffyrdd o fyw cynaliadwy sy'n gwyrddroi ein cyfraniad at newid yn yr hinsawdd".

Mae'r deunydd yn dilyn darlleniadau'r Llithiadur Cyffredin Diwygiedig ar gyfer dyddiau Sul mis Medi, tan gŵyl Ffransis (4ydd mis Hydref) gyda phwyslais arbennig ar ddarlleniadau'r Efengyl

Dydd Sul 3ydd Mis Medi	<i>Codi'r groes</i>
Dydd Sul 10fed Mis Medi	<i>Mewn Gwirionedd mae Grym</i>
Dydd Sul 17eg Mis Medi	<i>Mwy o drugaredd</i>
Dydd Sul 24ain Mis Medi	<i>Byw gyda digon</i>
Dydd Sul 1af Mis Hydref	<i>Gostyngeiddrwydd newydd</i>
Gŵyl Ffransis 4ydd Mis Hydref	<i>Gogoniant y greadigaeth</i>

Creation Time started in the Orthodox Church in 1989 and has been supported by a growing number of churches across Europe since then. The European Christian Environmental Network has urged churches to adopt a Time for Creation, stretching from 1 September to the feast of St Francis on 4 October. This was endorsed at the European Ecumenical Assembly in Sibiu, Romania in 2007, when it was agreed that

Creation Time "be dedicated to prayer for the protection of Creation and the promotion of sustainable lifestyles that reverse our contribution to climate change".

The material follows the Revised Common Lectionary readings for period from 1st September up to and including the Feast of St Francis (4th October), with a particular emphasis on the Gospel readings.

Sunday 3rd September	<i>Take up the cross</i>
Sunday 10th September	<i>Truth to power</i>
Sunday 17th September	<i>A greater compassion</i>
Sunday 24th September	<i>Living with sufficiency</i>
Sunday 1st October	<i>A new humility</i>
Feast of St. Francis 4th October	<i>The glory of creation</i>

**3ydd Mis Medi
Codi'r groes**

Efengyl: Mathew 16:21-28

*'rwy'ti'n meddwl fel mae pobl yn
meddwl yn lle gweld pethau fel mae
Duw'n eu gweld nhw'*

Brawddegau Cyfaddefiad

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn ni ein hunain wedi dod yn
rhwystr.

Arglwydd Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi troi ein cefnau ar y
groes.

Crist Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi bod yn amharod i
wynebu problemau yn y byd hwn.

Arglwydd Trugarha

Gweddïau Rhagarweiniol Cymun

Sy'n ein galw'n ddyddiol i godi'r
groes a dilyn ôl ei droed er mwyn
dod â theyrnas y nefoedd i'n plith.

**3rd September
Take up the cross**

Gospel: Matthew 16:21-28

*'you are setting your mind not on
divine things but on human things'*

Sentences for Confession:

For those times when we have
ourselves become stumbling blocks.

Lord have mercy

For those times when we have
turned away from the cross.

Christ have mercy

For those times when we have been
unwilling to face problems in this
world.

Lord have mercy

Eucharistic preface prayer:

Who calls us daily to take up the
cross and to follow in his path in
order to bring into being the
kingdom of heaven.

**3ydd Mis Medi
Codi'r groes**

Efengyl: Mathew 16:21-28

Ydyn ni'n cwmpo wrth y rhwystr gyntaf? Ydyn ni'n barod, neu oes gennyn ni'r gallu hyd yn oed, i dderbyn yr her y mae'r Newid yn yr Hinsawdd yn ei chynnig i ni fel dynoliaeth? Ai dyma'r groes y mae'n rhaid i ni ei chludo? A fyddwn yn anwybyddu hon fel problem nad oes raid i ni ei datrys yn ein cenhedlaeth ni a'i gadael i'r cenedlaethau sydd i ddod? Ydyn ni'n gobeithio y bydd technoleg yn ein hachub? Ai duw ffug arall yw popeth eco sy'n tynnu ein sylw oddi wrth ein gwir natur a dyletswydd? Yn yr wythnosau nesaf, gwahoddwn chi i fyfyrion ar bedair thema sy'n ganolog i neges Iesu. Maent yn ymwneud â gofalu am y greadigaeth a'n hagwedd tuag at yr amgylchedd.

**3rd September
Take up the cross**

Gospel: Matthew 16:21-28

Do we fall at the first hurdle? Are we prepared or even equipped to take on the challenge that Climate Change offers to us as humanity? Is this our cross to bear? Will we ignore it as an issue that we won't need to deal with in our generation and leave it for the future? Do we hope that technology will save us? Is everything eco just another false god distracting us from our true nature and duty? In the weeks to come you are invited to reflect on four themes which are central to the message of Jesus. These are related to care for creation and our attitude towards the environment.



**3ydd Mis Medi
Codi'r groes**

Efengyl: Mathew 16:21-28

*Estynnodd y rhain am y nen ond
fe'u tynnwyd i lawr yn eu hanterth.
Yn ifanc, oddeutu saith deg
mlwydd. Yn cwtogi'r canol-oed
newydd. Ydyn ni wedi colli gweld y
coed drwy'r pren yn ystod ein hoedl
fer? Cymaint o benderfyniadau gan
y genhedlaeth ddiwethaf, y tu hwnt
i'n dinodedd ni. Maent fel deisebau
wedi'u hoelio i'r croesau pren a
gludwn.*

**3rd September
Take up the cross**

Gospel: Matthew 16:21-28

*They reached for the skies but were
brought down in their prime.
Seventy or so years young. The new
middle age cut short. Have we
missed the trees for the wood in our
short span of years? So many
decisions last generations beyond
our own insignificance. They seem
like petitions nailed to the wooden
crosses that we bear.*



**10fed Mis Medi
Mewn Gwirionedd mae Grym**

Efengyl: Mathew 18:15-20

*'Pa bethau bynnag a waherddwch ar
y ddaear, fe'u gwaherddir yn y nef'*

Brawddegau Cyfaddefiad

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi troi ein golwg oddi
wrth wirioneddau anodd.

Arglwydd Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn heb chwilio am yr hyn sy'n
gywir.

Crist Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi esgeuluso'r di-lais.

Arglwydd Trugarha

Gweddïau Rhagarweiniol Cymun

Sy'n ein gwahodd i gyd-greu, i
gyfuno ar y ddaear bethau teyrnas y
nefoedd fel ein bod yn gallu
llawenhau mewn byd a wnaed yn
gyfan.

**10th September
Truth to Power**

Gospel: Matthew 18:15-20

*'Whatever you bind on earth will be
bound in heaven'*

Sentences for Confession:

For those times when we have
turned aside from hard truths

Lord have mercy

For those times when we have not
searched for what is right

Christ have mercy

For those times when we have
neglected the voiceless

Lord have mercy

Eucharistic preface prayer:

Who invites us to be co-creators to
bind on earth the things of the
kingdom of heaven that we might
rejoice in a world made whole.

10fed Mis Medi
Mewn Gwirionedd mae Grym

Mae Matthew 18:15-20 yn ddarn sy'n ymwneud yn bennaf â disgyblaeth a pherthynas. Mewn oes pan glywn am ffeithiau amgen a chuddio'r gwir, mae yma orchymyn gan Iesu i wneud pobl yn gyfrifol am eu geiriau a'u gweithredoedd. I ddweud y gwirionedd wrth y grymus. Ein lle ni yw hi, awgryma adnod 18, i wneud y gwaith yma ar y ddaear, gan y bydd ein penderfyniadau'n parhau, wedi eu clymu neu eu rhyddhau, yn nheyrnas y nefoedd. Mae gennym ddyletswydd i'n cyd-aelodau o gorff Crist i ymchwilio ac i herio'r pethau a wneir yn enw dynoliaeth ac, os nad ydynt yn dderbyniol, i wneud fel mae Iesu'n ei awgrymu a dal y gweithredwyr yn atebol. Yn hynny o beth, down yn eiriolwyr dros y di-lais. Y pennaf un o'r pethau di-lais yw'r greadigaeth.

10th September
Truth to Power

Matthew 18:15-20 is a passage primarily about discipline and relationship. In an age when we hear of post-truth and alternative facts there is a mandate here from Jesus to hold people to account for their words and their actions, to speak truth to power. It is up to us, suggests verse 18, that we do this work here on earth, for our decisions will remain so bound, or loosed in the kingdom of heaven. We have a duty to our fellow members of the body of Christ to investigate and to challenge what is being done in the name of humanity and if it is found wanting to do as Jesus suggests and hold them to account. In this we become an advocate for the voiceless. The creation is the ultimate voiceless one.

O ran yr amgylchedd, mae hyn yn golygu bod angen i ni gael ein ffeithiau'n gywir, neu o leiaf ddechrau dod i ddeall y problemau fel ein bod yn gallu cynnig barn ddeallus. Pan fydd pobl yn camddefnyddio adnoddau'r byd i wneud elw ac yn cuddio eu gweithredoedd tu ôl i fwgwd gwyddoniaeth a jargon gallwn ddatgelu'r pwerau yma (Wink, 2000) Mae'n anodd canfod atebion syml i broblemau cymhleth yn aml iawn. Heblaw ein bod yn benderfynol o chwilio am y gwirionedd a rhoi llais i'r rheiny sy'n methu codi eu lleisiau, mae llawer o bobl ac amgylcheddau yn y byd yma'n mynd i gael eu cadw yn y cysgodion. Beth allwn ni eu clymu neu eu rhyddhau ar y ddaear ac yn ein cymunedau ein hunain fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn ein helpu i adeiladu Teyrnas y Nefoedd?

Environmentally speaking this means we need to get our facts right, or at the very least begin to have an understanding of the issues so that we can offer an informed point of view. When there are those who would exploit the resources of the world for profit and hide their actions behind a mask of science and jargon we can unmask these powers. (Wink, 2000) Simple solutions to complex problems are often hard to come by. Unless we are determined to search for the truth and give a voice to those who cannot speak out, many people and environments in this world will be overshadowed. What is it that we can bind or loose on earth and in our own communities that will make a real difference and help to build the Kingdom of Heaven?



**10fed Mis Medi
Mewn Gwirionedd mae Grym**

**10th September -
Truth to Power**

*Ein geiriau a'n gweithredoedd sy'n
geiniogau o wirioneddau a ffeithiau,
i'w cyfnewid gydag eraill wrth
fyrddau laminedig. A allwn ni
ddiosg yr haenau i weld y
gwirionedd oddi tanynt, i addysgu,
hysbysu a chymodi? Ar y ddaear
cawn ein clymu neu ein rhyddhau
gan lais neu dawelwch. Pwy fydd yn
mynegi, yn eirioli, dros y di-lais?*

*Our words and actions are held on
account as truths and facts are
bartered away at laminated tables.
Are we able to peel back the layers
to see the truth beneath to teach,
inform and reconcile? On earth we
are bound or loosed by speech or
silence. Who will rise as advocate
for the voiceless?*



**17eg Mis Medi
Mwy o drugaredd**

Efengyl Mathew 18.21 - 35

*Nid hyd seithwaith a ddywedaf
wrthyt, ond hyd saith deg
seithwaith.*

Brawddegau Cyfaddefiad

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn heb weithredu gyda
thrugaredd.

Arglwydd Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi bod yn amharod i
faddau.

Crist Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi anghofio ein dyled i'r
ddaeear

Arglwydd Trugarha

Gweddïau Rhagarweiniol Cymun

Y mae ei deyrnas wedi'i hadeiladu
ar drugaredd a maddeuant. A
safodd wrth ochr y di-lais ac a
glywodd gri'r ddaear. Sy'n
llawenhau am y rhai sy'n edifarhau.

**17th September
A Greater Compassion**

Gospel: Matthew 18:21-35

*'Not seven times, but, I tell you,
seventy-seven times.'*

Sentences for Confession:

For those times when we have
failed to act with compassion.

Lord have mercy

For those times when we have not
been prepared to forgive.

Christ have mercy

For those times when we have
forgotten our debt to the earth.

Lord have mercy

Eucharistic preface prayer:

Whose kingdom is built on
compassion and forgiveness. Who
stood alongside the voiceless and
heard the cry of the earth. Who
rejoices over the repentant.

**17eg Mis Medi
Mwy o drugaredd**

Gan barhau yn Matthew 18:21-35, mae Iesu'n siarad am ddyled a sut y dylem ymdrin â'r rheiny sydd mewn dyled i ni. Pe baem yn gofyn i ni'n hunain, 'Beth yw ein dyled ar y ddaear?' 'Sgwn i sut y byddem yn ateb. Yn dibynnu ar ddiwinyddiaeth y rheiny a holwyd, byddai'r atebion yn amrywio o 'Nid oes arnom unrhyw ddyled i'r ddaear' i 'Rydym mewn dyled i'r ddaear am ein bodolaeth gyfan'. Yn y stori y mae Iesu'n ei hadrodd, nid oes gan y caethwas unrhyw drugaredd tuag at ei gyd-gaethweision, ac eto cafodd ef ei hun ei drin yn drugarog gan y brenin. Mae'n amlwg nad yw'n gywir, yn ôl addysg Iesu, i gymryd yr hyn yr ydym ei eisiau i ni'n hunain na gorchymyn pethau gan bobl eraill heb drugaredd.

I ddeall yn llawn yr effaith y mae ein gweithredoedd yn eu cael ar yr amgylchedd, mae'n rhaid i ni yn gyntaf ddioddef ochr yn ochr â'r rheiny sy'n teimlo'r effeithiau

**17th September
A Greater Compassion**

Continuing in Matthew 18:21-35, Jesus speaks about debt and how we ought to deal with those who owe us. If we were to ask ourselves the question, 'What is our debt to the earth?' I wonder how we might answer this. Depending on the theology of those questioned answers would range from 'We owe the earth nothing.' to 'We owe our whole being to the earth.' In the story that Jesus tells the slave has no compassion for his fellow slaves, yet he himself was dealt with compassionately by the king. It is clearly not right, according to Jesus's teaching to take for ourselves what we want and demand of others without compassion.

In order to fully understand the environmental impacts of our actions we must first suffer with those who feel the worst effects or

gwaethaf neu o leiaf wrando ar eu straeon a chodi ein lleisiau ar eu rhan. Mae adrodd stori'n gyfrwng grymus i bregethwyr. O adrodd stori ac annog pobl i weithredu'n drugarog (nid gofalu yn unig, ond adfywio hefyd), gallwn helpu i ddechrau gosod ein cymunedau ar lwybr lle maent yn cymryd mwy o ran ac yn gweithredu'n fwy trugarog er budd cenedlaethau'r dyfodol. Un agwedd o hyn yw maddeuant, fel y gwelwn yn y darn yma yn Matthew. Mae'n elfen ganolog yng ngwaith y Cristion ein bod yn gadael i'r rheiny sy'n clywed cri'r ddaear ddechrau o'r dechrau eto, yn hytrach na'u hatgoffa'n ddiddiwedd am y pethau maent wedi eu gwneud yn anghywir yn y gorffennol neu am eu gofalaeth wael dros yr amgylchedd. Mae dathlu'r pethau bychain yn dod yn rhan allweddol o'n gwaith amgylcheddol. Mae prosiect Eco-Eglwys A Rocha yn erfyn gwerthfawr yn y cyswllt hwn.

at the very least to hear their stories and be an advocate for them. Storytelling is a powerful tool for preachers. Taken together with an encouragement for compassionate action (which ought to be regenerative, not merely sustainable), we can help to begin to set our communities on a path towards more compassionate and engaged action for future generations. One aspect of this is forgiveness as in this passage from Matthew. Allowing those who hear the cry of the earth to begin again, rather than to continually be reminded of past wrongdoing or bad environmental stewardship, is a central Christian calling. Celebrating the small things becomes a key part of our environmental work. The Eco-Church project of A Rocha is an invaluable tool in this regard.

17eg Mis Medi
Mwy o drugaredd

Beth yw ein dyled i'r ddaear? Dim ond ein bodolaeth gyfan. Os ydym yn rhan o'i thylwyth sut allwn ni ddioddef clywed ei stori? Cyrhaeddais yn hwyr. Mae'r gwyllanod yn effro yn barod wedi codi o'u clwydi, ymhell o'r parti. Cyfarchodd yr alltudion fi gyda chri, heb symud wrth i mi darfu ar eu preifatrwydd – sy'n eironig am ein bod yn gwrthod eu herfyniadau bob tro. A allwn ni symud ymlaen ynghyd, gyda maddeuant, i adfywio, i ail greu cri gyntaf y ddaear a dathlu mewn amrywiaeth?

17th September
A greater compassion

What is it we owe in debt to the earth but our whole being. If she is our kin can we suffer with her story? I arrived late. The herring-gulls awake already from their overnight roost away from the party. The outcasts, already risen, greeted me with a cry and were unmoved as I invaded their privacy - ironic for we always reject their advances. Can we go on together, forgiven to regenerate, recreate the first cry of the earth and celebrate in diversity?



24ain Mis Medi
Byw gyda digon

Efengyl: Mathew 20:1-16

*Neu ai cenfigen yw dy ymateb i'm
haelioni?*

Brawddegau Cyfaddefiad

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi cymryd mwy na'n
cyfran deg.

Arglwydd Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi teimlo cenfigen at
bobl eraill.

Crist Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn wedi anghofio'r rheiny sydd
heb ddim.

Arglwydd Trugarha

Gweddïau Rhagarweiniol Cymun

A ddewisodd roddi rhoddion mwyaf
y deyrnas i'r olaf a'r lleiaf fel y gall y
ddaeear gyfan ganu ag un llais.

24th September
Living with sufficiency

Gospel: Matthew 20:1-16

*'are you envious because I am
generous?'*

Sentences for Confession:

For those times when we have
taken more than our share.

Lord have mercy

For those times when we have been
envious of others.

Christ have mercy

For those times when we have
forgotten those who have nothing.

Lord have mercy

Eucharistic preface prayer:

Who chose to give to the last and
the least the greatest gifts of the
kingdom in order that the whole
earth might sing with one voice.

24ain Mis Medi
Byw gyda digon

Yn Matthew 20:1-16 mae Iesu'n cynnig tegwch yn hytrach na chydaddoldeb. Mae pob gweithiwr yn mynd adref gyda chyflog diwrnod ond mae rhai wedi gweithio'n hirach nag eraill. Wrth sôn am broblemau amgylcheddol, mae'r ddameg yma'n ein hatgoffa o drafodaethau am yr ôl troed byd-eang. Mae ein ôl troed byd-eang yn dangos faint o adnoddau'r byd yr ydym yn eu defnyddio a sawl planed ddaear y byddem eu hangen os byddai pawb yn defnyddio'r adnoddau ar yr un cyflymder â'r cenhedloedd mwy datblygedig. Mae rhai gwledydd yn defnyddio ychydig iawn o adnoddau ond nhw fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y newid yn yr hinsawdd. Mae gwledydd eraill yn defnyddio llawer mwy na'u cyfran deg o adnoddau byd-eang bob blwyddyn, ond nhw fydd yn cael eu heffeithio leiaf. Nid yw hyn yn gydradd nag yn deg.

24th September
Living with sufficiency

In Matthew 20:1-16 Jesus offers an image of equity rather than equality. Each worker goes home with a day's wage but some worked for longer than others. In terms of environmental issues this parable is reminiscent of discussions over the global footprint. Our global footprint show how much of the world's resources we use and how many earths we would need to have if everyone consumed at the rate of the industrialised nations. Some countries use few resources but will be affected the most by climate change. Other countries use far more than their share of global resources per year, but are affected the least.

This is neither equal nor equitable. Learning to live within our means is not only about living with sufficiency, it is about seeing an

Mae dysgu byw o fewn ein hadnoddau nid yn unig yn ymwneud â byw gyda digon, mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg. Ni fydd unrhyw un aelod o deyrnas y nefoedd yn derbyn mwy nag y mae ei angen. Er na fydd y dosbarthiad byth yn gyfartal mae'n rhaid i ni geisio sicrhau nad yw unrhyw un wlad yn defnyddio mwy na'u cyfran o'r adnoddau sydd gan y byd i'w cynnig. Bydd hyn yn golygu bod gan rai lai nag eraill, ond bydd y ffordd y cânt eu rhannu'n deg. Mae digon o adnoddau i'w rhannu ar y ddaear hon, dim ond ein bod yn eu defnyddio'n deg. Mae hyn yn dechrau bob amser gyda byw bywyd yn ôl ein Hefengyl.

equitable distribution of resources. No one member of the kingdom of heaven will receive more than is required. Though distribution will never be equal we must try to ensure that no one country use more than their share of resources that the world has to offer. This will mean some will appear to have less than others, but the sharing out will be equitable. There are enough resources to share on this earth, if only we would use them equitably. This always begins with us living out our Gospel.



24ain Mis Medi
Byw gyda digon

Mae breuddwydion paradwysaidd yn cyfeirio at goetir neu berthi fel cynefinoedd cydfyw cymdeithasol. Yn wir, ceir cofleidio rhyfedd rhwng gwreiddiau o dan wyneb y tir ac wyneb tybiaethau. Ac eto, nid yw 'parhad y trechaf' nac 'eco-ddibyniaeth' yn esbonio eu perthynas â'i gilydd. Wedi meddwl am y peth, mae'n ymddangos bod tyfiant yn gryfach, yn gadarnach, gyda chwmnïaeth. Mae cystadlu'n beth da. Ac ydynt, maent yn rhannu a d n o d d a u a c h a n d d y n t berthnasoedd buddiol, ond fel mae'n digwydd, dim ond pan fo hynny'n addas iddynt hwy. Efallai nad yw planhigion mor wahanol i'r ddynol ryw wedi'r cyfan.

24th September
Living with sufficiency

Utopian dreams cite a woodland or hedgerow as harbinger of social cohabitation. There is indeed a strange embrace between roots beneath the surface of both soil and supposition. Yet neither survival of the fittest nor eco-dependency describes their relation. On balance it seems, in company, growth is hardier, stronger. Competition is good. And yes, they share resources and have beneficial relationships, but as it turns out, only when it suits them. Perhaps plants are not so different from humans after all.



1af Mis Hydref
Gostyngeiddrwydd newydd

Efengyl: Mathew 21:23-32

*‘A chwithau, ar ôl ichwi weld hynny,
ni newidiasoch eich meddwl a dod
i'w gredu.’*

Brawddegau Cyfaddefiad

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn heb ddangos dealltwriaeth.
Arglwydd Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn heb gydnabod rhoddion
pobl eraill.

Crist Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn heb lwyddo i gydnabod y
gwir.

Arglwydd Trugarha

Gweddïau Rhagarweiniol Cymun

A heriodd yr awdurdodau ac a
aflonyddodd y rhai cyfforddus.
Sy'n grymuso gydag iachâd y rheiny
sy'n cydnabod eu bod yn dorredig.

1st October
A new humility

Gospel: Matthew 21:23-32

*‘even after you saw it, you did not
change your minds and believe him’*

Sentences for Confession:

For those times when we have
failed to understand.

Lord have mercy

For those times when we have not
acknowledged the gifts of others.

Christ have mercy

For those times when we have
failed to acknowledge the truth.

Lord have mercy

Eucharistic preface prayer:

Who challenged the authorities and
disturbed the comfortable. Who
empowers with healing those who
acknowledge their brokenness.

1af Mis Hydref
Gostyngeiddrwydd newydd

Awgrymodd Richard Rohr un tro bod 'gwyddonwyr yn dangos mwy o ostyngeiddrwydd o flaen dirgelwch pethau na'r mwyafrif o'r glerigaeth.' Mae gennym ni ateb i bopeth. 'Mae'r rheiny sy'n gwybod,' meddai 'yn gwybod nad ydynt yn gwybod.' (Rohr, Gŵyl Greenbelt 2010). Gallwn weld gostyngeiddrwydd syml yn addysgu Iesu pan fo'n siarad am awdurdod gyda'r Phariseaid yn Matthew 21:23-32. Mae'r Phariseaid yn ceisio hawlio awdurdod o flaen y bobl, ond pan gânt eu herio gan Iesu ni allent ateb oherwydd byddent yn edrych yn wirion y naill ffordd a'r llall. Gall gymryd dewrder mawr i gyfaddef ein bod wedi gwneud camgymeriad. Mae penderfynoldeb dygn gan rai pobl i barhau i honni nad oes y fath beth â newid yn yr hinsawdd neu nad oes bai arnom ni o gwbl amdano. Byddai'n fwy gostyngedig i ni gyfaddef nad oeddem yn deal y ffeithiau,

1st October -
A new humility

Richard Rohr once suggested that 'scientists show more humility before the mystery of things than most clergy.' We have an answer for everything. 'Those who know,' he goes on, 'know that they don't know.' (Rohr, Greenbelt Festival 2010) There is a simple humility to Jesus's teaching when he speaks about authority with the pharisees in Matthew 21:23-32. The pharisees are trying to claim authority before the people, but when challenged by Jesus are unable to answer for they will look foolish either way. It can take great courage to admit that we have been wrong. There is a dogged determination by some to continue to claim that climate change is not happening or that we are not at least in part to blame. It would be more humble to admit that we didn't understand, for such is the complexity of the science,

oherwydd mae gwyddoniaeth yn gymhleth, nad oes atebion hawdd ac nad oes un ffordd syml o ddatrys y broblem. Wrth gwrs, nid oes angen cynnig atebion cyflawn yn ein pregethu. Wrth sôn am newid yn yr hinsawdd ac amddiffyn yr amgylchedd byddai'n amhosibl cynnig atebion cyflawn. Ond, mae'n bwysig ymgysylltu'n ostyngedig gyda'r problemau a'r cwestiynau sy'n ein hwynebu hyd yn oed os yw hynny'n golygu dweud nad yw'r atebion gennym. Yn aml iawn, dyna'r amser pan fydd pobl eraill o'n cwmpas wedi eu grymuso i ddod yn rhan o'r ateb, am eu bod yn rhan o gymuned o'r bobl hynny sy'n cydweithio. Lle Iesu yw hi i gydnabod rhoddion ymhob unigolyn. Mae gwrthodiad y Phariseaid i gydnabod gweinidogaeth Ioan yn dangos diffyg gostyngeddrwydd amlwg.

there are no simple solutions. There is of course no need to offer complete solutions in our preaching. In the case of climate change and environmental protection it would be impossible to do so. It is important however to engage humbly with the issues and questions we are faced with even if it means saying that we do not have the answers. Often that is the moment when others are empowered around us to become part of a solution being part of a community of those who work together. It is a calling of Jesus to recognise gifts in each person. The Pharisees refusal to recognise John's ministry displayed a distinct lack of humility.



**1af Mis Hydref
Gostyngeiddrwydd newydd**

Bechod na allwn innau wau'r we gymhleth yr wyt ti wedi'i gwau. Yn clymu llinyn at bob un a ddaw tuag ataf. Cyfarwyddwr cysylltiadau manwl yn cyrraedd pob lefel. Yn teimlo'r naws, ffrwd yr ynni a ddaw tuag ataf. Ond ni ddylwn geisio hongian yr edau honno yn yr un patrwm â thi. Am mai dy rodd di yw gwau, cymaint ag y mae'n rhodd i minnau freuddwydio.

**1st October
A new humility**

If only I could weave the complex web that you have spun. Attaching cords to each and every one who came my way. Director of intricate connections reaching every level. A feel for the vibe, the flow of energies that might come my way. But I should not attempt to hang out those threads in such an array. For it is your gift to weave as it is mine to dream.



**4ydd Mis Hydref Gŵyl Ffransis
Gogoniant y greadigaeth - Y Saboth**

Efengyl: Mathew 19: 23-30
*‘mai anodd fydd hi i rywun
cyfoethog fynd i mewn i deyrnas
nefoedd’*

Brawddegau Cyfaddefiad

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn heb dalu sylw i'r hyn sydd
o'n cwmpas.

Arglwydd Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan fydd
ein perthynas gyda'r greadigaeth yn
torri.

Crist Trugarha

Ar gyfer y cyfnodau hynny pan
fyddwn yn anghofio cadw'r Saboth
yn ein bywydau ein hunain.

Arglwydd Trugarha

Gweddïau Rhagarweiniol Cymun

A ysbrydolodd San Ffransis i fyw yn
ei ffodd syml mewn cytgordd â'r
brawd haul a'r chwaer lleuad, fel
bod modd i'r ddaear gyfan gyd-greu
harddwch a chelfyddyd y
greadigaeth.

**4th October St. Francis
The glory of creation - Sabbath**

Gospel: Matthew 19: 23-30
*‘it will be hard for a rich person to
enter the kingdom of heaven’*

Sentences for Confession:

For those times when we have we
have not paid attention to what is
around us..

Lord have mercy

For those times when our
relationship with creation becomes
broken.

Christ have mercy

For those times when we have we
neglect to keep sabbath in our own
lives..

Lord have mercy

Eucharistic preface prayer:

Who inspired St. Francis to live his
simple way in harmony with with
brother sun and sister moon that all
the earth might become co re-
creators of the beauty and art of
creation.

**4ydd Mis Hydref Gŵyl Ffransis
Gogoniant y greadigaeth - Y Saboth**

Ar y mwyafrif o galendrau, Dydd Sul yw diwrnod cyntaf yr wythnos. Ond ai Dydd Sul yw'r diwrnod i adeiladu tuag ato, neu i weithio i ffwrdd oddi wrtho? Mae dathliadau'r Iddewon ar gyfer y Saboth yn canolbwyntio ar hanes Genesis am lunio'r greadigaeth hyd y seithfed diwrnod. Fel yr oedd Duw wedi gorffwys o'i waith, felly hefyd mae'r cymunedau Iddewig yn anrhydeddu'r diwrnod. Pa un ddaeth gyntaf? hanes y greadigaeth neu orffwys y Saboth? Byddwn i'n dewis y gorffwys ar y Saboth. Roedd y llwythau cynnar a ddilynodd y dull arbennig yma o fyw'n grwydrol ac yn cysylltu'n agos â'r tir. Roeddent yn deall y tymhorau naturiol yn llawer gwell nag yr ydym ninnau. Bob seithfed blwyddyn dylid cael Saboth ar gyfer y tir. Mae hyn yn ofalaeth dda ar y tir. Roedd jiwbilî economaidd hefyd.

**4th October St. Francis
The glory of creation - Sabbath**

On most calendars Sunday is the first day of the week. But is Sunday the day you build up to, or work from. The Jewish celebrations for Sabbath centre on the Genesis narrative of creation building up to the seventh day. As God rested from all his work, so Jewish communities honour it. Which came first? Creation narrative or Sabbath rest? I'd go with sabbath rest. The early tribes who followed this particular way of life were nomadic and were closely attached to the land. They understood the natural seasons far better than we do. Every seventh year there should be a sabbath for the land. This was good land husbandry. There was also an economic jubilee. The Jewish tribes followed a Sabbath at the end of the week and at the seventh year and the 50th year.

Roedd y llwythau Iddewig yn dilyn y Saboth ar ddiwedd yr wythnos ac ar y seithfed a'r 50fed blwyddyn. Mewn Cristnogaeth, y Pasg cyntaf oedd diwrnod cyntaf yr wythnos, y diwrnod ar ôl y Saboth. Mewn ffordd, symudwyd y Saboth gennym i ychwanegu dathliadau'r Pasg, y greadigaeth newydd. Ond, 'sgwn i a ydym wedi colli hanfod y Saboth. Dylai'r Saboth, efallai, sefyll y tu allan i amser. Nid diwrnod ydyw ond, yn hytrach, gyflwr meddwl. Gall Dydd Sul fod mor sanctaidd a gwerthfawr fel nad ydym yn gallu gorffwys oherwydd yr holl fusnes o baratoi i addoli a gwasanaethau, y cynllunio a'r edrych i'r dyfodol. Felly beth yw'r Saboth erbyn hyn? Er na fyddwn byth eto'n gweld y cau siopau, busnesau a thafarnau ar y Sul, mae rhywbeth i'w anrhydeddu yn yr awydd hwnnw am lonyddwch, am brofi tangnefedd y seithfed diwrnod i ni'n hunain, i'r tir ac i'r economi. Efallai y dylai'r Sul fod yn 'ddiwrnod o baratoi' i ni.

Christianity, the first Easter was the first day of the week, the day after the Sabbath. In effect we moved sabbath to and added the Easter celebrations, the new creation. However, I wonder if we have lost the essence of sabbath. Sabbath should, perhaps, stand outside of time. Not a day but rather a state of mind. Sunday can become so holy and precious that we are not able to rest for all the business of services and worship preparation, planning and looking to the future. What then has The Sabbath become? Though Sunday closing for shops, business and pubs will not return, there is something to be honoured in that desire for stillness, to see seventh day restfulness for ourselves for the land and for the economic. Perhaps sunday ought to be our 'day of preparation.' In the Jewish tradition this was the sixth day of the week. The meal, the house, everything was prepared to observe the Sabbath.

Yn y traddodiad Iddewig, dyma oedd chweched diwrnod yr wythnos. Byddai'r pryd bwyd, y tŷ, popeth yn cael ei baratoi i barchu'r Saboth. Rwy'n pendroni'n aml, fel y gwnaeth Iesu hefyd mae'n sicr, beth ddigwyddai i'r holl ffermwyr ar y Saboth, oherwydd does bosib na allent baratoi ar gyfer pob sefyllfa o flaen llaw. Mae Iesu'n gofyn, pwy na fyddai'n dewis datod rhaff ei ful ar y Saboth i adael iddo yfed dŵr. Nid yw'r Saboth yn ymwneud â gwneud dim byd. Mae'n ymwneud â chael y cyflwr meddwl cywir. Er mwyn i ni allu cario'r Saboth gyda ni drwy'r wythnos gyfan, er mwyn i ni allu cael enydau o'r Saboth yn ein gwaith ac ym mhopeth a wnawn. Mae Dydd Sul yn ddiwrnod i fyfyrio, ond mae hefyd yn ddiwrnod i godi ac i gyfranogi. Mae'n ddiwrnod i sylwi ar bopeth sydd o'n cwmpas ac i ofalu amdano. Mae'n ddiwrnod i'n helpu i baratoi i gludo'r Saboth i mewn i weddill yr wythnos lle gallwn ail-greu, ar y cyd, drwy ail-ddychmygu ac adfywio duwiol gelfyddyd a harddwch coll y creu.

I always wonder, as indeed did Jesus, what happened to all the farmers on the sabbath, surely they could not prepare for every eventuality in advance. Jesus asks, who would not untie his donkey on the sabbath to allow it a drink of water. It is not about doing nothing, but about the right state of mind. In order that we can carry sabbath with us throughout the week, in order that we can have sabbath moments in all our work and in all we do. Sunday is a day to reflect, but also to rise up and be engaged. A day to take notice of all that is around us and to care about it. A day to help us prepare to take sabbath into the rest of the week where we can be co-re-creators with the divine re-imagining and regenerating the lost beauty and art of creation.

**4ydd Mis Hydref Gŵyl Ffransis
Gogoniant y greadigaeth - Y Saboth**

*Pe caem gipolwg yn unig ar y byd fel
lle gorffwys, a fyddem wedi ein
cyfareddu gan y stori sanctaidd?
Wedi ein hanrhydeddu wrth i fywyd
cyfan droi'n ddiwrnod o baratoi.
Yna, efallai y down yn gyd-grëwyr y
wawr, gan aildychmygu'n ddwyfol
gelfyddyd a harddwch coll y creu.
Nid yw bywyd a adewir yn segur
am gyfnod, yn fywyd ofer. Rhaid
gollwng gafael, gadael i'r tangnefedd
naturiol godi eto a, chyfranogi'n
dyner braf, wedi ein daearu unwaith
eto.*

**4th October St. Francis
The glory of creation - Sabbath**

*If we had but a glimpse of the world
as a resting place would we be
caught in the sacred story?
Honoured as the whole of life
becomes a day of preparation. We
might just then become co-creators
of the dawn for a divine re-
imagining of the lost art and beauty
of creation. A life laid fallow, for a
time, is not in vain. To let go, to
allow the natural restfulness to rise
up and with gentle ease, to
participate; earthed once again.*



Adnoddau Eraill

Other Resources

www.seasonofcreation.org

www.ctbi.org.uk

www.arocha.org.uk

www.caringforgodsacre.org.uk

www.churchinwales.org.uk/society/chase/

www.facebook.com/CHASECymru

www.churchofengland.org/media/41161/tsagyear.pdf



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales

